

Ar 6 Ebrill 2017 cynhaliwyd sesiwn galw heibio i'r cyhoedd gennym yng Nghlwb Rygbi St Peter's er mwyn i aelodau'r cyhoedd drafod ymholiadau mewn perthynas â'r gwaith. Yn y ddogfen hon ceir ymatebion i'r ymholiadau a godwyd ar y ffurflenni adborth a lenwyd. Lle mae cwestiynau penodol wedi'u gofyn a manylion cyswllt wedi'u darparu, rydym wedi ymateb yn uniongyrchol i'r preswylwyr.

1. A allech godi rheiliau yn Church Terrace i atal pobl rhag dringo i Erddi Waterloo i'w fandaleiddio?

Rydym wrthi'n ystyried a ellir gwneud hyn ac rydym wedi codi'r mater gyda Chyngor Caerdydd, sy'n berchen ar y parc ac yn ei reoli. Byddwn yn rhoi gwybod i'r cyhoedd am y canlyniad.

2. A ellir gosod seddi newydd lle mae ganddynt olygfa dda, yn hytrach na'u gosod i gyd ar y llwybrau?

Mae ein pensaer tirlunio wedi ystyried yn ofalus leoliadau'r meinciau newydd yn y dyluniad. Mae'r dyluniad cyfredol yng Ngerddi Waterloo yn cynnwys ardal lwyfan a meinciau'n cynnig golygfeydd ar draws y parc a draw at y nant, ac yng Ngerddi Melin y Rhath bydd meinciau sy'n cynnig golygfeydd ar draws y nant. Mae angen gosod y meinciau newydd wrth ymyl llwybrau troed er mwyn i bobl fynd atynt ac i atal difrod i'r ardaloedd glaswelltog.

3. A all y llwybrau newydd yng Ngerddi Melin y Rhath gael eu gwneud o raeon?

Mae llwybrau newydd yn yr ardal hon yn cael eu gwneud o gerrig mâl a fydd yn hunanrwyddig. Bydd hyn yn debyg yr olwg i raeon, ond gyda'r fantais o fod yn gadarnach ar gyfer defnydd tymor hir.

4. A oes angen grisiau arnom i ardal y llwyfan ac a oes modd rhoi coeden yno?

Mae angen cynnwys grisiau er mwyn cael mynediad, sy'n defnyddio'r lle'n effeithlon, i fyny i'r bompren ar draws y nant o dde'r parc. Ffafir hyn yn lle ramp mwy o faint a fyddai'n lleihau'r manau gwyrdd yn y parc. Mae maint a ffurfwedd y grisiau hyn yn destun adolygiad ar hyn o bryd gan ein tîm dylunio, sydd hefyd yn ystyried a yw'n bosibl cynnwys coeden yn ardal y llwyfan.

5. Pam mae angen canllawiau arnom i fyny'r afon yng Ngerddi Melin y Rhath?

Mae dyluniad y cynllun yn ystyried risg cwmpo o uchder, a defnyddir canllawiau i dynnu sylw pobl i ardaloedd lle mae risg neu i'w tywys oddi wrthynt. Darperir rheilen warchod yn y parc ger pont Blenheim Road i atal plant ar sgwteri, beiciau ac ati rhag rhedeg i lawr y bryn i'r nant wrth i'r llwybr droi 90 gradd.

6. A allwn sefydlu perllan gymunedol lle mae'r tir diffaith yng Ngerddi'r Rheilffordd?

Bydd rhaid i'r gymuned drafod y cynnig hwn gyda Chyngor Caerdydd, sy'n berchen ar y parciau ac sy'n eu rheoli.

7. Pryd gafodd y grŵp hwn o barciau ei israddio o Radd I i Radd II a pham? Pwy benderfynodd hyn a beth yw canlyniad yr israddio?

Mae Gerddi Waterloo ar Gofrestr CADW o Dirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru fel rhai Gradd II (Cyfeirnod PGW(Gm)29(CDF)). Nid oes gan CNC unrhyw

wybodaeth am y newid dynodiad, a dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau mewn cysylltiad â pharciau a gerddi hanesyddol at yr Arolygydd Parciau a Gerddi Hanesyddol, CADW, Plas Carew, Uned 5/7 Cefn Coed, Parc Nantgarw, Caerdydd CF15 7QQ, neu drwy e-bost at cadw@wales.gsi.gov.uk.

8. A ellir holi barn y preswylwyr am gynnwys y pergola yng Ngerddi Waterloo?

Rydym yn awyddus i ymgysylltu ymhellach â phob rhan o'r gymuned a gall preswylwyr gysylltu â ni mewn amryw ffyrdd - sesiynau galw heibio, ein swyddfa ymgysylltu â'r gymuned ar y safle, ein caban ar y safle, ein tudalen we ar gyfer y Rhath, cyfeiriad e-bost a phost, a thrwy Gynghorwyr lleol. Rydym yn ddiolchgar am bob adborth ac yn awyddus i glywed am faterion a godir gan y cyhoedd, gan gofio barn y preswylwyr a'r rhanddeiliaid hynny yr ymgynghorwyd â hwy eisoes ac a gafodd eu cynnwys wrth ddatblygu'r cynllun. Rhaid inni reoli disgwyliadau ac ni allwn fodloni pob cais am newid, yn enwedig yn y man hwn yn y prosiect. Credwn fod y cynllun cyfredol wedi'i ddatblygu'n sensitif ac mai prin yw'r lle i'w wella wrth fodloni amcanion y prosiect a'r achos busnes, ond rydym yn ystyried awgrymiadau unigol yn ôl eu teilyngdod a byddwn yn ymgorffori newidiadau lle mae'n rhesymol ac yn bosibl gwneud hynny. Lle nad yw'n bosibl, byddwn yn egluro'r rhesymau pam.

Ers cael rhai gwrthwynebiadau llafar ers dechrau'r adeiladu, rydym wedi cwrrd â sylfaenwyr tudalen Facebook '*Reconsider Waterloo Gardens Flood Defence Scheme*' i egluro proses ddatblygu a phenderfynu'r cynllun. Rydym wedi rhoi ymatebion helaeth i'w cwestiynau i'w rhannu gyda'r grŵp. Cytunasom hefyd y byddai sesiwn galw heibio o fudd ac felly trefnwyd y sesiwn ar 6 Ebrill. Rydym yn ystyried yr adborth a gawsom yn y sesiwn hon a byddwn yn ymateb i bob ymholiad a gafwyd. Gan symud ymlaen o'r sesiwn hon, rydym wedi gosod hysbysfyddau'r sesiwn galw heibio yng nghaban Gerddi Waterloo i'r cyhoedd eu gweld, ynghyd â rhaglen o weithgareddau gwaith cyfredol a gwaith sydd ar ddod, a bwriadwn i'r tîm prosiect gynnal diwrnodau galw heibio anffurfiol er mwyn trafod gyda'r cyhoedd. Byddwn yn darparu samplau o'r waliau i helpu'r cyhoedd i ddeall sut olwg fydd ar y cynllun gorffenedig. Rydym hefyd yn diweddarau ein gwefan prosiect yn rheolaidd ac rydym wedi paratoi adran 'Cwestiynau Cyffredin' i'r cyhoedd gyfeirio ati.

9. A ellir adfer y clawdd ar hyd Sturminster Road?

Ynghyd â Chynghorwyr lleol, rydym wedi codi mater cynnwys y clawdd o flaen y wal sy'n wynebu Newminster Road gydag Adran Barciau Cyngor Caerdydd, ac mae wedi cytuno y bydd hwn yn cael ei adfer.

10. Oni fydd ardal y llwyfan newydd yn denu sgrialwyr, defnyddwyr cyffuriau a fandaliaid?

Mae ardal y llwyfan wedi'i dylunio'n ofalus gan ein pensaer tirlunio ac ystyriwyd yr holl bryderon uchod:

Sgrialwyr

Mae'n bosibl i sgrialwyr ddefnyddio'r rampiau wyneb du llyfn, ond yn anffodus mae'n rhaid darparu'r rampiau hyn i'r rheini ag anableddau. Mae copinau wal isel hefyd weithiau'n agored i 'rygnu' (llithro ar hyd ymyl y copin â'r bwrdd sgrialu) felly lle mae'r muriau llifogydd yn ffinio â'r rampiau, byddwn yn gosod naill ai rheiliau dur neu ganllaw dur i atal 'rhygnu'. Ar ochrau eraill y ramp ac o amgylch y tu allan i'r llwyfan i ffwrdd o'r mur llifogydd, gosodir stydiau atal byrddau sgrialu ar bob copin gwastad bob 300mm mewn patrwm igam-ogam (fel eu bod 600mm ar wahân ar bob ymyl) i atal sgrialwyr.

Llechfaen o dywodfaen Pennant yw wyneb gwastad y llwyfan sy'n arwyneb cymharol arw ac felly nid yw'n gyffyrddus i sgrialwyr ei ddefnyddio. Felly ni fydd mwyafrif yr ardaloedd palmantog yn denu sgrialwyr.

Defnyddwyr Cyffuriau

Mae'r seddi ar y llwyfan mewn man cyhoeddus iawn, a'r bompren yn gyswllt allweddol â'r llwybr gogledd-de yn ogystal â'r llwybrau dwyrain-gorllewin. Bydd yr ardal felly'n destun cryn wyliaidwriaeth gan y cyhoedd sy'n mynd heibio gan olygu felly na fydd yn fan deniadol i ddefnyddwyr cyffuriau, am ei bod yn well ganddynt fod mewn ardaloedd lle nad ydynt mor debygol o gael eu gweld. Dewiswyd

planhigion isel ar gyfer cloddiau'r llwyfan ac islaw'r pergola ac felly ni fydd llwyni'n cuddio'r ardal eistedd fewnol.

Mae camddefnyddio cyffuriau yn fater cymdeithasol ehangach a gall dyluniadau fod yn amddiffynol yn yr ystyr bod seddi'n cael eu hepgor am y gallent fentro y bydd defnyddwyr cyffuriau yn ymgynnull yno. Fodd bynnag, mae hyn ar draul mwyafrif defnyddwyr y parc a nod gosod seddi ar y llwyfan yw cynnig lleoedd i eistedd a mwynhau'r golygfeydd dros y nant a'r bont i'r gogledd, yn ogystal â'r golygfeydd dros ardal agored y parc i'r de. I rai defnyddwyr, mae cael rhywle i eistedd yn bwysig pan fyddant yn penderfynu defnyddio parc ai peidio am fod seddi'n gallu bod yn hanfodol i'r rheini â symudedd cyfyngedig yn benodol. Mae hefyd yn caniatáu rhyngweithio cymdeithasol ac yn annog pobl i aros a mwynhau parc yn hytrach na'i ddefnyddio'n unig fel llwybr o'r naill le i'r llall.

Fandaliaeth

Bydd fframwaith y llwyfan, y dodrefn stryd, y rheiliau a'r canllawiau, a'r pergola i gyd yn cael eu hadeiladu o ddeunyddiau cadarn o ansawdd uchel. Mae'r planhigion i'r pergola yn cynnwys rhosynnau pigog sy'n dringo ac yn tyfu'n gyflym gan rwystro pobl rhag dringo'r fframwaith. Mae wynebâu carreg y muriau llifogydd a'r colofnau carreg i'r pergola yn rhy arw i ddenu graffiti (yn wahanol i waliau ac wynebâu llyfn). Fel y dywedwyd uchod, mae'r llwyfan ar lwybr croesi a bydd llawer o bobl yn ei weld wrth fynd heibio neu eistedd yn y man, sydd oll yn golygu na fydd yn ddeniadol i fandaliaid. Dylai'r dyluniad graenus hefyd gadw fandaliaid ac artistiaid graffiti draw am ei bod yn well ganddynt ddefnyddio'r ardaloedd hynny sy'n ddirywiedig eu golwg.

11. Sut bydd traffig yn cael ei reoli tra bydd pont Heol Waterloo ar gau?

Mae pont dros dro i gerddwyr yn cael ei gosod wrth ymyl Pont Heol Waterloo, felly bydd modd cerdded dros yr afon drwy'r amser. Bydd llwybr gwyrriad traffig gydag arwyddion ar waith, wedi'i gytuno gyda Phriffyrdd Cyngor Caerdydd, yn ogystal â mesurau lleddfau traffig ar ffyrdd lleol (Blenheim Road yn benodol). Mae manylion y gwyrriad hwn yn cael eu cadarnhau ar hyn o bryd, ond mae'n debygol o fod ar hyd Marlborough Road, Heol Pen-y-lan, a Colchester Avenue. Bydd bysiau'n cael eu gwro'n lleol, a llwybrau ac arosfannau dros dro'n cael eu trefnu gan weithredwr Bws Caerdydd. Bydd y busnesau wrth ymyl Gerddi Waterloo ar agor fel arfer.

12. A ellir hysbysebu dyddiadau cau ffyrdd?

Byddwn yn hysbysebu'r ffaith bod ffyrdd yn yr ardal yn cael eu cau'n rhannol neu'n gyfan gwbl drwy ein tudalen we, ein cyfryngau cymdeithasol, ein rhestr ddosbarthu e-bost a hysbysfyrdau'r safle. Mae goleuadau traffig dros dro'n cael eu gosod yn ysbeidiol yn ystod mis Mai a mis Mehefin o gwmpas Heol Waterloo er mwyn gwro gwasanaethau cyn ailosod y bont. Bydd Heol Waterloo ar gau o ddechrau mis Gorffennaf am ryw chwe mis er mwyn ailosod y bont, a bydd goleuadau traffig yn rheoli'r fynedfa i Erddi Waterloo yn ystod rhan neu'r cyfan o'r cyfnod hwn.

13. Sut bydd y gwaith celf efydd yng Ngerddi Melin y Rhath yn cael ei ddiogelu rhag lladrad?

Bydd y model efydd yn cael ei osod yn ddiogel wrth blinth carreg. Defnyddiwyd dull tebyg yng Nghastell Caerffili ac ym Mharc Bute, a bu'r modelau hyn yno ers 2009 a 2014.

14. Sawl coeden newydd fydd yn cael ei phlannu? A oes modd plannu cynifer o goed ag sydd wedi'u gwaredu?

Byddwn yn ailblannu 105 o goed yn y gerddi (a'r mwyafrif ohonynt rhwng 2.5m a 5m o uchder) a hyd at 200 o lasbrennau ym maes chwaraeon y Rhath. Mae'r cynlluniau plannu coed a ffotograffau sampl o'r amryw rywogaethau ar gael i'w gweld ar ein gwefan (www.naturalresources.wales/roath), ac maent hefyd ar gael i'w gweld yn ein caban yng Ngerddi Waterloo. Dewiswyd y rhywogaethau coed drwy ystyriaeth ofalus ein pensaer tirlunio i sicrhau bod y gerddi'n parhau yn gyfoethog ac yn amrywiol.

Yn anffodus, ni fydd yn bosibl ailblannu cynifer o goed ag a waredwyd, am fod nifer y coed sy'n cael eu hailblannu'n cael ei bennu gan y lle sydd ar gael a bydd angen lle i dyfu ar y coed sy'n cael eu plannu. Hefyd, gofynnodd y gymuned yn y sesiynau galw heibio am gadw'r lle agored yng Ngerddi'r Rheilffordd at ddibenion chwaraeon.

15. Mae planiau'r cynllun yn cynnwys gormod o lwybrau ac adeileddau artiffisial. Pam mae angen y rhain?

Mae'r waliau newydd yng Ngerddi Melin y Rhath, Gerddi Waterloo a Gerddi'r Rheilffordd yn rhan o'r amddiffynfa rhag llifogydd ac mae eu hangen i ddarparu'r safon amddiffyn ofynnol rhag llifogydd. Oherwydd prinder lle, nid yw'n bosibl adeiladu argloddiau ac felly mae waliau wedi'u gorchuddio â charreg neu frics yn cael eu codi. Mae dau lwybr newydd wedi'u cynnwys i roi cysylltedd o gwmpas y gerddi ac er mwyn sicrhau bod cadeiriau gwthio a chadeiriau olwyn yn gallu cael at bob ardal.

16. Mae coed yn amsugno llawer iawn o ddŵr. Oni fydd gwaredu'r coed yn cynyddu risg llifogydd, am eu bod yn amsugno dŵr daear?

Ni fydd gwaredu'r coed yn cynyddu'r risg llifogydd oherwydd i fyny'r afon y mae tarddiad mwyafrif y llifddwr afonol (ni ddaw o Erddi'r Parc) neu llifddwr llanw ydyw. Yn ôl ymchwil, gall derwen aeddfed dynnu 120 litr o ddŵr y dydd ar gyfartaledd, a hyd at 200 litr y dydd yn ystod yr haf. Os tybiwn fod llifogydd yn digwydd yn ystod yr haf ac os cyfrifwn y dŵr a amsugnir gan ddwy ran o dair o'r coed a waredwyd (am nad oeddent oll yn dderi aeddfed nac felly'n amsugno cymaint o ddŵr) y dŵr mwyaf posibl a waredir fyddai 830 litr yr awr yn ystod yr haf (ar gyfer 100 o goed, 200 litr y dydd sy'n gywerth ag 8.3 litr yr awr). Mae hyn yn anwybyddu ailblannu. Y briglif llifogydd yn y nant mewn llifogydd 1:1 (sydd â siawns 100% o ddigwydd bob blwyddyn) yw 330,000 litr yr awr, ac felly mewn llifogydd aml ni fyddai'r coed yn helpu i amsugno ond 0.25% o'r llifddwr. Byddai hyn yn ganran is eto yn ystod llifogydd llai aml.

17. A allai'r gwall argraffu a nododd y byddai'r cynllun yn diogelu rhag digwyddiad 1 mewn 5 mlynedd yn hytrach na digwyddiad 1 mewn 75 mlynedd fod wedi dylanwadu ar farn y cyhoedd i fod o blaid y cynllun?

Dim ond unwaith y dosbarthwyd y gwall argraffu hwn i'r cyhoedd a digwyddodd hynny ar ôl ymgynghori ynghylch y cynllun, ar ôl cyflwyno cais cynllunio manwl ac ar ôl cael caniatâd cynllunio (Mai 2016). Cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn gan ddefnyddio'r safon amddiffyn gywir a ddarperir gan y cynllun (1 mewn 75 mlynedd).

18. A ellir cadw'r rheiliau ar bont Heol Waterloo?

Yn anffodus nid yw hyn yn bosibl, am fod y wal newydd ar y bont yn rhan o'r amddiffynfa rhag llifogydd.

19. A ellir cadw'r ffens bren yng Ngerddi'r Rheilffordd fel y llinell derfyn?

Yn anffodus nid yw hyn yn bosibl, am fod y wal newydd ar hyd y llinell hon yn rhan o'r amddiffynfa rhag llifogydd.

20. A ellir rhoi gorffeniad carreg i'r mur terfyn gogleddol newydd yng Ngerddi'r Rheilffordd er mwyn iddo gyd-fynd â gweddill y cynllun?

Mae gan Erddi'r Rheilffordd wahanol hanes a chymeriad tirwedd i Erddi Waterloo, Gerddi Melin y Rhath a Gerddi Nant y Rhath. Nid oedd yn rhan o'r parc hanesyddol gwreiddiol ac nid oes ganddo'r rheiliau perimedr allanol fel yr uchod, sydd oll â muriau llifogydd wedi'u gorchuddio â charreg wedi'u cynnig yn ardal y parc sy'n agos i'r nant.

Yng Ngerddi'r Rheilffordd, mae'r mur llifogydd yn rhan o berimedr allanol y parc ar yr ochr ogleddol ac mae'n bell o'r nant. Felly mae'r dyluniad yn ceisio rhoi ei gymeriad lleol arbennig ei hun i'r rhan hon. Bydd y wal yn cael ei gorchuddio ar y ddwy ochr i gyd-fynd â'r brics coch a ddefnyddiwyd ar gyfer y tai o gwmpas, ond bydd y copin yr un fath ag ar gyfer yr holl furiau llifogydd ac felly bydd hyn yn elfen ddylunio sy'n uno'r cynllun i gyd.

21. Oni ellir gwaredu'r bont ganol yng Ngerddi Waterloo, fel na fydd angen ardal y llwyfan wedyn?

Mae pont ar hyn o bryd yn y man hwn sy'n caniatáu mynediad o ochr ogleddol y parc, ac felly mae'n bwysig cadw'r nodwedd hon a'r cysylltedd drwy'r gerddi i gyd.

22. Ble ydych wedi cyhoeddi'r model a ddefnyddiwyd i ragfynegi'r risg llifogydd? Pwy sydd wedi craffu ar hwn a'i gymeradwyo? Ar sail pa ffigurau a wnaethpwyd y penderfyniadau cyfredol?

Cyhoeddwyd allbwn y model hydrologig ar gyfer rhagfynegi risg llifogydd yn rhan o'n Hasesiad Canlyniad Llifogydd, a gyflwynwyd yn rhan o'r cais cynllunio. I ddatblygu'r model hydrologig, cymerwyd y camau canlynol:

- 1) Cwblhawyd arolygon o'r nant i bennu lleoliad unrhyw bontydd ac adeileddau sy'n effeithio ar lif, a mesurwyd y nant, ei sianel a'i gorlifdir cysylltiedig. Cafodd yr wybodaeth hon ei llwytho wedyn i'n meddalwedd modelu hydrologig (a fu'n destun gwirio annibynnol gan Asiantaeth yr Amgylchedd sy'n rheoli risg llifogydd yn Lloegr).
- 2) Cyfrifwyd y lloedd afon ar gyfer amlderau llifogydd (neu ddigwyddiadau llifogydd) amrywiol sy'n defnyddio amryw bamedrau fel maint a siâp y dalgylch afon, defnydd tir, daeareg a chofnodion glawiad.
- 3) Gan ddefnyddio cofnodion glawiad a lefelau afon, profwyd wedyn ein model hydrologig mewn perthynas â llifogydd hanesyddol (e.e. llifogydd 2009) i bennu ei gywirdeb.

Paratowyd y model hydrologig gan ymgynghorydd a gyflogwyd gan CNC. Craffwyd ar hwn wedyn ac fe'i cymeradwywyd gan dîm annibynnol yn CNC sy'n asesu datblygiadau ar gyfer risg llifogydd i sicrhau bod y modelau llifogydd yn bodloni'r lefel ofynnol o ran manylder a chywirdeb ar gyfer unrhyw ddatblygiad.

Ar ôl cymeradwyo'r model hydrologig sylfaenol (ar gyfer y sefyllfa cyn y gwaith), defnyddiwyd hwn i ddatblygu dewisiadau cynllun amrywiol i reoli'r risg llifogydd yn y Rhath.

Drwy gymharu cost adeiladu dewisiadau amrywiol mewn perthynas â'r difrod llifogydd a ragfynegywyd, pennwyd mai'r safon orau posibl o amddiffyn rhag llifogydd i'w darparu oedd yn erbyn digwyddiad llifogydd afonol 1 mewn 75 mlynedd (siawns 1.3% o lifogydd mewn unrhyw flwyddyn benodol) a digwyddiad llifogydd llanwol 1 mewn 150 mlynedd (siawns 0.67% o lifogydd mewn unrhyw flwyddyn benodol).

23. A oes angen y cynllun hwn? Onid gwastraff arian yn unig ydyw?

Mae llawer o gartrefi a busnesau yn ardaloedd y Rhath, Pen-y-lan a Heol Casnewydd mewn perygl o lifogydd o Nant y Rhath ac Afon Rhymni a rhagfynegir y bydd y risg yn cynyddu o ganlyniad i newid hinsawdd.

Penderfynir ble a sut y gwnawn y gwaith yn ôl dull Cymru gyfan sy'n seiliedig ar risg. Diffinnir y dull hwn gan bolisi Llywodraeth Cymru yn ei Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Risg Llifogydd. Mae polisi Llywodraeth Cymru'n mynnu ein bod yn blaenoriaethu ymhle rydym yn canolbwyntio ein gwaith. Er mwyn sicrhau bod ein cyllid prin yn cael ei dargedu yn yr ardaloedd lle mae'r risg mwyaf, rydym wedi llunio Cofrestr Cymunedau mewn Perygl. Mae'r gofrestr hon yn gosod yn eu trefn yr holl ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd o'r prif darddiadau afon yng Nghymru ac mae'n ein galluogi i flaenoriaethu ein rhaglen waith. Mae'r ardal risg ar gyfer Nant y Rhath ar hyn o bryd yn yr 17eg safle yng Nghymru.

Dengys ein hymarferion modelu llifogydd y gall llifogydd yn y man hwn fod o ganlyniad i lloedd afon uchel ar ôl cyfnodau o lawiad trwm a pharhaus, llanw uchel neu gyfuniad o'r ddau (gweler ein map llifogydd ar-lein www.naturalresourceswales.gov.uk). Rhagfynegir bod 400 eiddo mewn perygl yn ystod digwyddiad llifogydd afonol 1 mewn 75 mlynedd (siawns 1.3% o lifogydd mewn unrhyw flwyddyn benodol) a digwyddiad llifogydd llanw 1 mewn 150 mlynedd (siawns 0.67% o lifogydd mewn unrhyw flwyddyn benodol). Er bod rhai pobl yn credu mai tebygolrwydd bach iawn yw hwn i gyfiawnhau gwariant y cynllun, bydd y gost i'r gymuned o ran atgyweirio eiddo a'r gwaith adfer cyffredinol pe byddai llifogydd yn digwydd yn llawer mwy na'r gost o'u hamddiffyn yn gynaliadwy i leihau'r risg. Hefyd, mae ffactorau nad oes ganddynt werth ariannol ond sydd yr un mor bwysig fel yr effaith ar iechyd a lles, yn feddyliol ac yn gorfforol, i'r bobl y mae'r llifogydd yn effeithio arnynt. Mae effeithiau llifogydd yn parhau ymhell ar ôl i'r dŵr gilio.

Er mwyn i'r cynllun rheoli risg llifogydd fynd rhagddo, datblygwyd achos busnes a oedd yn dangos bod y costau o ganlyniad i effeithiau llifogydd ar bobl ac eiddo yn llawer mwy na'r gost o ddarparu'r cynllun. Roedd yr achos busnes hwn yn cyfiawnhau datblygu ac adeiladu'r cynllun hwn ac fe'i cymeradwywyd gan fwrdd risg llifogydd CNC.

24. Ble alla i gael gwybodaeth a diweddariadau?

Trowch at ein tudalen we - www.naturalresources.wales/roath - neu dilynwch ni ar gyfryngau cymdeithasol - Twitter: [@natreswales](https://twitter.com/natreswales), Facebook: [NatResWales](https://www.facebook.com/NatResWales)

Am ymholiadau mewn perthynas ag adeiladu, cysylltwch â Swyddog Cymunedol Dawnus, Matthew Frewer, sy'n darparu pwynt cyswllt i breswylwyr lleol drwy gydol y gwaith adeiladu. Gellir cysylltu ag ef ar: [07880 358541](tel:07880358541) neu roath@dawnus.co.uk.

Ar gyfer unrhyw ymholiadau eraill, cysylltwch â Thîm Llifogydd y Rhath CNC drwy e-bost: Roath@naturalresourceswales.gov.uk; neu drwy'r post yn: Cynllun Llifogydd y Rhath, Llawr 1, Cyfoeth Naturiol Cymru, 29 Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0TP.